
# Sut i blannu coed

A wyddech chi mai plannu coed brodorol (rhai sy'n tyfu'n naturiol, nid wedi eu cyflwyno gan ddyn) yw un o'r ffyrdd hawsaf o helpu ein planed? Mae coed yn berffaith o ran darparu bwyd a lloches ar gyfer bywyd gwyllt. Nhw hefyd yw ysgyfaint y ddaear – yn gwneud ocsigen hanfodol ar gyfer bodau dynol ac anifeiliaid. Dyma sut y gallwch gyflawni gweithred syml, sy'n gwneud y byd o wahaniaeth.



## Bydd arnoch angen

+ **Coed – mae gan wahanol goed (e.e. derw, onnen, bedw, criafol, cyll) wahanol ddibenion ac anghenion. Dylech ddewis eich mathau o goed yn seiliedig ar ble rydych chi am eu plannu a'r hyn rydych chi ei eisiau ganddynt**
+ **Polion i gynnal coed**
+ **Gwarchodwr coed, clymwyr neu felcro coeden – dibynnu ar faint y goeden**
+ **Rhaw**
+ **Gordd bren neu forthwyl trwm**
+ **Menig garddio gwarchodol**



## Cofiwch

**Cyn mynd ati i blannu eich coed, sicrhewch bod gennych ganiatâd y tirfeddiannwr os nad y chi sy'n berchen y tir. Gall gwefan y Gofrestrfa Tir eich helpu gyda hyn.**

## Beth i'w wneud

1. Marcio ble rydych am blannu eich coed, 2m – 5m ar wahân, yn dibynnu ar y gofod, mewn llinell donnog i edrych yn fwy naturiol. Os ydych chi am wneud perth, mae'r pellter ar wahân yn llai:
   — 30cm ar wahân am berth sengl
   — am berth trwch-dwbl, plannwch mewn patrwm igam-ogam gyda 50cm rhwng pob rhes a 40-50cm rhwng pob coeden
2. Rhowch eich polyn cynnal yn y ddaear cyn plannu'r goeden. Bydd hyn yn helpu i'w diogelu rhag niwed gan y gwynt ac yn osgoi niweidio'r gwreiddiau wrth blannu. Morthwyliwch i mewn.
3. Cloddio twll wrth eich polyn cynnal – dim yn rhy llydan ond un digon dwfn i dderbyn holl wreiddiau'r goeden.



## Beth i'w wneud parhad

4. Rhoi'r goeden yn y twll gan wneud yn siŵr bod yr holl wreiddiau o dan yr wyneb.
5. Llenwi'r twll yn ôl â'r pridd a ddaeth ohono. Gwnewch y pridd yn gadarn trwy ei wasgu i lawr â sawdl eich esgid, i gael gwared o fylchau awyr a diogelu'r goeden.
6. Tynnu'n ysgafn ar y goeden ar ôl gwasgu'r pridd i lawr. Os yw'n symud, gwasgu eto nes iddi aros yn ei lle
7. Gosod eich gwarchodwr coeden (os ydych yn defnyddio un) dros y goeden a'i glymu wrth y polyn cynnal. Os yw'ch coeden yn ddigon mawr, fydd dim angen gwarchodwr. Defnyddiwch Velcro coed i'w chlymu wrth y polyn yn agos at fon y goeden fel y gall symud yn y gwynt ac ymaddasu i'w hamodau. Llaciwch y Velcro wrth i'ch coeden dyfu.
8. Cynnal a chadw'r tir o gwmpas eich coeden newydd-ei-phlannu, ei gadw'n rhydd o chwyn a thorri unrhyw laswellt yn fyr â gofal. Sicrhau hefyd nad yw'r gwarchodwr a'r polyn yn niweidio'r goeden.



## Syniadau da ar gyfer plannu coed

**Mae'n werth gwybod pa bryd sydd orau i blannu, a sut i storio'ch coed er mwyn bod yn sicr o gael llwyddiant.**

### Pryd i blannu eich coed

+ Dylid plannu coed pan ydynt ynghwsg (wedi colli eu dail) fel eu bod yn llai tebygol o gael niwed.
+ Yng Nghymru, mae'r tymor plannu coed yn rhedeg trwy'r hydref/gaeaf rhwng Tachwedd a Mawrth.
+ Gallwch blannu coed y tu allan i'r tymor ond maen nhw'n llai tebygol o oroesi gan y gall y ddaear fod yn rhy sych.

### Sut i storio eich coed

+ Os ydych chi'n gwneud project plannu graddfa-fawr, mae'n debygol y daw'r coed â gwreiddiau noeth, h.y. heb bridd o amgylch y gwreiddiau. Mae'n bwysig storio coed gwreiddiau-noeth allan o'r gwynt a chadw'r gwreiddiau'n llaith nes eich bod yn barod i blannu.
+ Os prynwch chi goed o ganolfan arddio neu rywle tebyg, maen nhw'n debygol o ddod mewn pot â phridd o'u cwmpas. Cadwch y pridd yn llaith nes eich bod yn barod i blannu.

## Ffaith sydyn

**Er bod plannu coed newydd yn bwysig dros ben, mae coed marw hefyd yn rhan wirioneddol bwysig o'n coedwigoedd a'n gerddi. Mae coed marw yn cynnig bwyd a lloches i lu o anifeiliaid, planhigion a ffyngau.**

**Ymwelwch â gwefan Coed Cadw am fwy o wybodaeth a chyngor ar blannu coed**

